



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Tawe i Dregatwg Crynodeb Dalgylch Rheoli



## Cynnwys

1. Cefndir y crynodeb dalgylch rheoli .....	3
2. Dalgylch Rheoli Tawe i Dregatwg.....	4
3. Statws presennol yr amgylchedd dŵr .....	7
4. Y prif heriau.....	10
5. Amcanion a mesurau.....	12
6. Archwilio Dyfroedd Cymru .....	21

## 1. Cefndir y crynodeb dalgyrch rheoli

Mae'r crynodeb dalgyrch rheoli hwn yn cefnogi diweddariad 2015 o Gynllun Rheoli Basn Afonydd (RBMP) Gorllewin Cymru. Ynghyd â gwybodaeth fanwl ar wefan Arsylwi Dyfroedd Cymru (WWW), bydd y crynodeb hwn yn helpu i lywio a chefnogi'r broses o ddarparu gwelliannau amgylcheddol lleol i'n dŵr daear, afonydd, llynnoedd, aberoedd ac arfordiroedd. Mae gwybodaeth ar WWW yn Adran 6.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu'r dull ecosystem o'r dalgyrch i'r arfordir. Golyga hyn fod angen bod yn fwy cydgysylltiedig yn y ffordd y rheolwn yr amgylchedd a'i adnoddau naturiol i ddarparu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gael Cymru fwy iach a mwy hydwyth. Mae'n golygu ystyried yr amgylchedd cyfan, fel bod y rheini sydd â diddordeb yn y dalgyrch yn pwysu a mesur a gosod blaenoriaethau ar gyfer y gofynion cystadleuol niferus ar ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy integredig a chyflawni ein cyd uchelgais ar gyfer y lle.

Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn darparu fframwaith trosfwaol mawr ar gyfer rheoli basn afon. Mae'r Gyfarwydddeb Llifogydd yn nodi ffordd strategol o ymdrin â chynllunio rheoli perygl llifogydd. Lluniwyd diweddariad o'r cynllun rheoli perygl llifogydd (FRMP) ochr yn ochr â diweddariad 2015 o **Grynodeb RBMP Gorllewin Cymru**. Mae'r cynllun rheoli perygl llifogydd yn rhoi manylion ar sut y bwriadwn reoli perygl llifogydd ar draws ardal y basn afon trwy flaenoriaethu'r cymunedau hynny sydd yn y perygl mwyaf o ddioddef llifogydd a thrwy fanylu'r mesurau y bwriadwn eu cymryd i reoli'u perygl.

Bydd y FRMP a'r RBMP gyda'i gilydd yn llywio'r penderfyniadau pwysig, yn cyfarwyddo buddsoddi a gweithredu uniongyrchol, ac yn darparu manteision sylweddol i gymdeithas a'r amgylchedd.

## 2. Dalgylch Rheoli Tawe i Dregatwg

Ffigur 1. Dalgylch Rheoli Tawe i Dregatwg



Mae'r ardal sy'n cael ei chynnwys yn y crynodeb rheoli dalgylch hwn yn cynnwys dalgylchoedd afonydd Tawe, Nedd, Afan, Cynffig, Ogwr, Colhuw, y Ddawan a Thregatwg (gweler Ffigur 1). Mae'r ardal yn ymestyn o Abertawe yn y gorllewin, i dde Penarth yn y dwyrain ac mae'n cynnwys llawer o ran ganolog Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o'r lle y mae blaendwr Tawe a Nedd yn tarddu.

Cynhaliwyd llawer o'r datblygiad presennol, gan gynnwys datblygiadau diweddar a chynt, ar rannau gwastad o dir ar waelodion y cwm ger y prif gyrsiau dŵr. Mae'r prif gysylltiadau megis rheilffyrdd, ffyrdd (gan gynnwys yr M4) a Chamlas Abertawe, hefyd wedi dilyn gwaelodion y cwm. Er mwyn diwallu datblygiadau trefol a diwydiannol, cyfyngwyd ar yr afonydd neu cawsant eu hail-lwybro (yn benodol afonydd Tawe a Nedd) ac adeiladwyd amddiffynfeydd rhag llifogydd sydd bellach yn cynrychioli elfen bwysig o'r seilwaith yn yr ardal. Dylanwadir ar ein gweithgarwch rheoli gan ganlyniadau o'r fath.

Yn hanesyddol, roedd gweithgarwch diwydiannol yn digwydd ar raddfa fawr yn Abertawe a gwaelod cwm Tawe. Mae llawer o'r ardaloedd hyn wedi'u hadfer a'u trawsnewid i ddatblygiadau preswyl a chyfadeiladau marina arobryn a hwyluswyd yn rhannol gan Forglawdd Tawe. Heddiw, ychydig o weithgarwch llongau sy'n parhau yn Nociâu Abertawe – sef cyn ganolbwynt gorffennol diwydiannol Abertawe – ac mae Doc y Brenin yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddisbarthu cargo. Yn Abertawe, fel ym mhrif ardaloedd trefol Castell-nedd, Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, mae ystadau diwydiannol mawr, ac mewn rhai manau mae modd gweld hyd heddiw olion o gyn safleoedd gwaith glo, safleoedd

alldynnu mwynau/mwyndoddi a safleoedd chwarela cerrig sydd wedi gadael ar eu hôl domenni o rwbel, tir wedi'i halogi a phroblemau o ran gollyngiadau sy'n llygru o byllau wedi'u gadael.

Mae rhan arfordirol yr ardal yn gartref i waith diwydiannol mawr megis Tata Steel ym Mhort Talbot a Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr. I ffwrdd o'r arfordir, mae coedwigaeth yn ddefnydd tir pwysig, yn enwedig planhigfeydd conwydd yn rhannau uwch dalgylchoedd Castell-nedd, Afan ac Ogwr lle mae ochrau serth y cwm yn frith o goed, yn enwedig coedwigoedd Rheola, Margam, Ogwr ac Afan. Yn gynyddol, plannir cymysgedd o goed collddail ar ôl cywain y coed presennol, yn enwedig ar hyd coridorau afonydd, er mwyn gwella bioamrywiaeth.

Cyfyngir yn gyffredinol ar amaethu ar ucheldiroedd Bannau Brycheiniog i ffermio defaid ar laswelltir heb ei wella, a magu rhywfaint o wartheg bïff. Mae'r ardaloedd is, yn benodol Bro Morgannwg, yn fwy ffrwythlon ac maent yn cynnwys unedau godro, ffermio â'r a magu gwartheg bïff. Iseldir nodedig sydd i'r Fro sy'n bwysig yn hanesyddol gan ei fod yn cynnwys cyfoeth o safleoedd archaeolegol sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol, a nodweddion amaethyddol i osodiadau milwrol yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal, mae prif nodweddion y tirlun yn cynnal cadwraeth natur helaeth a diddordeb daearegol yn ardal arfordirol y rhanbarth.

Mae'r ardal gyfan â gwerth cadwraeth uchel ac mae sawl safle dynodedig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae twristiaeth yn hanfodol a denir ymwelwyr gan gyfleoedd hamdden amrywiol, gan gynnwys pysgota gêm, cerdded a chanŵio ym Mannau Brycheiniog, beicio ar hyd un o'r amryfal lwybrau oddi ar y ffordd yng nghoedwigoedd y cwm ac mae naw o ddyfroedd ymdrochi penodol i'w dewis ohonynt ar hyd y morlin amrywiol.

Dalgylch Tawe yw un o'r tair ardal yng Nghymru lle rydym yn arbrofi â ffordd o ymdrin â chynllunio/rheoli adnoddau naturiol. Diben yr arbrofion hyn yw gweithio gyda rhanddeiliaid lleol i bennu'r ffordd orau o ddefnyddio a rheoli adnoddau naturiol. Elfen allweddol o hyn yw deall pa rolau y mae ein hamgylchedd yn eu chwarae o ran cefnogi'r gymdeithas ehangach. Ein bwriad yw sicrhau y defnyddir ein hamgylchedd yn gynaliadwy, ac ar yr un pryd ein bod yn ymateb i anghenion lleol, gan ddarparu manteision i bobl a busnesau.

Ym mis Chwefror 2014 cynhaliom weithdy rheoli dalgylch Tawe i Dregatwg yng Ngwesty Aberavon Beach. Yn ystod y digwyddiad hwn, nododd partneriaid lleol a'r rheini a chanddynt ddiddordeb y manteision allweddol a ddarparwyd gan yr amgylchedd dŵr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Harddwch naturiol a thirwedd
- Nodweddion a strwythurau treftadaeth
- Bioamrywiaeth afonydd a'u glannau, llynnoedd ar yr ucheldir, gwlyptiroedd, ceunentydd coediog, twyni tywod a chynefinoedd eraill
- Coetiroedd – hynafol a masnachol
- Cyfleoedd hamdden – pysgota, hwylio, beicio, cerdded, gwyllo adar etc.
- Morlin
- Atyniadau twristiaeth

Rydym yn parhau i gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid a sectorau mewn ffyrdd arloesol er mwyn i ni gyflawni rhagor eto gyda'n gilydd. Rhoddir blas ar rai o'r prosiectau a ddarparwyd yn y dalgylch rheoli hwn dros y 3 mlynedd diwethaf fel astudiaethau achos trwy'r ddogfen hon.

Am ragor o wybodaeth ar brosiectau ewch i WWW.



## Astudiaeth achos – Camgysylltiadau i Afon Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr

- Halogwyd arllwysfa draen llifogydd fawr i'r afon ger pwll genweirio poblogaidd gan ddŵr llwyd, llanast carthion a ffwng. Ffynhonnell y llygredd oedd draen domestig lle cysylltir toiledau, sinciau, peiriannau golchi dillad a pheiriannau golchi llestri mewn camgymeriad â draeniau dŵr wyneb, yn hytrach nag i'r ffos garthion aflan.
- Ymchwiliodd y cwmni dŵr lleol i ganfod lleoliad y gollyngiadau a gwnaeth hefyd wirio'r ffosydd. Cynhaliodd ein swyddog amgylcheddol hefyd arolygiadau ar y cyd â'r cwmni dŵr a'r awdurdod lleol. Cynhaliwyd arolygon o deledu cylch cyfyng i ganfod rhannau o'r draen llifogydd a oedd wedi'u llygru a chynhaliwyd arolygiadau gweledol o'r draeniad a'r eiddo. Olrheiniwyd llifyn i gadarnhau cysylltiadau eiddo. Yna gweithiodd swyddog yr awdurdod lleol â deiliaid y tai i gywiro'r camgysylltiad.



### 2.1 Ffeithiau allweddol<sup>1</sup>

Rydym yn defnyddio'r term cyrff dŵr i helpu i ddeall a rheoli'r amgylchedd dŵr. Mae corff dŵr yn afon, llyn, dŵr daear neu ddŵr arfordirol, neu'n rhan o'r rhain. Dengys nifer y cyrff dŵr a'u math yn y dalgylch rheoli yn y tabl canlynol

**Tabl 1. Nifer y cyrff dŵr a'u math.**

Nifer y cyrff dŵr	Naturiol	Artiffisial	Wedi'i addasu'n sylweddol	Cyfanswm
Afon*	47	2 (camlesi)	5	54
Llyn	1	2	2	5
Arfordirol	2	0	1	3
Aberol	1	0	4	5
Dŵr daear	7	0	0	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>	<b>4</b>	<b>12</b>	<b>74</b>

\*Mae cyrff dŵr afon yn cynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb

<sup>1</sup> Mae gwahaniaethau mewn niferoedd cyrff dŵr ac ardaloedd gwarchoddedig o'u cymharu â chynlluniau'r cylch cyntaf a chynlluniau'r ail gylch. Mae hyn oherwydd newidiadau yn y rhwydwaith cyrff dŵr yn ogystal â mireinio'r fethodoleg a'r rheolau rhwng cyrff dŵr, dalgylchoedd rheoli ac ardaloedd gwarchoddedig.

Mae ardaloedd yn y dalgylch lle cydnabyddir bod yr amgylchedd dŵr o bwysigrwydd penodol, gan gynnwys cynefinoedd bywyd gwylt prin, dyfroedd ymdrochi neu ardaloedd o gwmpas ffynonellau dŵr yfed. Gelwir yr ardaloedd hyn ar y cyd yn ardaloedd gwarchoddedig a nodir eu manylion yn y tabl isod.

**Tabl 2. Nifer yr ardaloedd gwarchoddedig a'u math.**


Ardal Warchoddedig	Nifer
Dyfroedd Ymdrochi	14
Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed	10
Natura 2000 a safleoedd Ramsar	8
Parthau Perygl Nitradau	177 ha
Dyfroedd Pysgod Cregyn	4
Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol – Ardaloedd sensitif	1

### 3. Statws presennol yr amgylchedd dŵr

Rydym yn asesu cyflwr cyrff dŵr trwy fonitro, sy'n cynhyrchu dosbarthiad cyffredinol. Dengys statws presennol pob corff dŵr yn ffigur 2. Noder, er 2009 rydym wedi diweddarau rhai o'r systemau a ddefnyddiwn i ddsbarthu cyrff dŵr, gan gynnwys newidiadau i rai safonau a ffiniau cyrff dŵr.

O fewn y dalgylch rheoli mae 43% o gyrff dŵr wyneb gyda statws dosbarthiad cyffredinol da, 52% yn gymedrol, a 5% yn wael. Does dim cyrff dŵr ar statws cyffredinol uchel.

**Ffigur 2. Statws presennol Dalgylch Rheoli Tawe i Dregatwg**






## 4. Y prif heriau

Rydym wedi cynnal rhaglen o ymchwiliadau i wella ein dealltwriaeth o'r achosion ynghylch pam nad yw cyrff dŵr yn cyflawni'r safonau gofynnol. Crynhoir canlyniadau ein canfyddiadau yn Ffigur 3. Nodir y rheswm dros beidio â chyflawni statws da dan y Materion Rheoli Dŵr Wyneb (SWMI) yn unol â diweddariad yr RBMP. Mae'r graff isod yn dangos nifer y cyrff dŵr a restrir dan bob SWMI i roi syniad o'r prif faterion yn y dalgylch rheoli. Efallai bod mwy nag un rheswm i gorff dŵr beidio â chyflawni statws da.

**Ffigur 3. Rhesymau dros beidio â chyflawni statws da.**



Yn aml effeithir ar gyrff dŵr gan fwy nag un mater. Rydym wedi nodi chwe chorff dŵr yn nalgylchoedd Tawe, Cynffig, Castell-nedd ac Afan sy'n methu oherwydd addasiadau ffisegol megis coredau artiffisial sy'n atal pysgod rhag ymfudo i fyny'r afon a chyrraedd eu tiroedd silio. Mae gan ddalgylch Cynffig ddau gorff dŵr sy'n debygol o fethu o ganlyniad i dynnu dŵr wyneb gan ddiwydiannau. Mae tir wedi'i halogi'n rheswm dros fethu yn y Fendrod ac mae olion y pyllau glo yn debygol iawn o fod yn rheswm dros fethu ym Mhelenna. Mae gollyngiad parhaus o weithfeydd trin dŵr gwastraff yn rheswm dros fethu yn Sychryd ac yn debygol iawn o fod yn rheswm dros fethu yn y Llynfi. Mae gollyngiadau ysbeidiol (gorlifo o garthffos) o weithfeydd trin dŵr gwastraff yn debygol iawn o fod yn rheswm dros fethu yn y Llynfi, Fendrod a Dulais (Castell-nedd). Mae effeithiau cronus draenio dŵr gwastraff wedi'i gam-gysylltu o ystadau tai a diwydiannol yn debygol iawn o fod yn rheswm dros fethu yn y chwe chorff dŵr yn nalgylchoedd Ogwr a Chastell-nedd.

#### 4.1 Adborth ar heriau

Mae angen i ni gydweithio i sicrhau y cyflawnir bwriadau cyffredinol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ac i gytuno ar y materion a'r datrysiadau â blaenoriaeth. Mae'r canlynol yn rhestr o rai o'r heriau a godwyd drwy'r ymgynghoriad ac fel rhan o'r gweithdy a gynhaliwyd yn Aberafan (nid yw'n rhestr lawn).

- Rhwystrau i ymfudiad pysgod
- Llifogydd – rheoli dŵr ac asedau
- Llifogydd – gwella cynefinoedd
- Prosiectau cynhyrchu ynni – ynni dŵr, morlyn llanw
- Hamdden – gwella mynediad gwledig a threfol
- Materion tynnu dŵr
- Llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol, gan gynnwys camgysylltiadau, pwysedd datblygu
- Materion cwympo coed mewn coedwig – Phytophthora (cyfathrebu gwael), asideiddio, perygl llifogydd
- Coedwigaeth – amrywiaeth rhywogaethau isel
- Rheoli tir gwledig – erydiad pridd a llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth
- Rhywogaethau Estron Goresgynnol, yn enwedig Jac y Neidiwr a Chlymog Japan
- Ymgysylltu â'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth
- Llygru diwydiannol a materion hanesyddol
- Ansawdd dŵr ymdrochi
- Cyfleoedd cyfyngedig i ariannu prosiectau
- Gwasgedd cyfoethogi maetholion o ffynhonnell STW a gwasgaru ffynonellau gwledig
- Dirywiad mewn cynefinoedd a rhywogaethau dyfrol

#### 4.2 Arbrawf rheoli adnoddau naturiol afon Tawe

Mae Bil yr Amgylchedd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi Datganiadau Ardal i hwyluso gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Datganiadau Ardal yw'r sail dystiolaeth integredig sy'n adnabod y peryglon allweddol, blaenoriaethau a chyfleoedd potensial. Y dull seiliedig ar ardal yw'r un mae CNC yn ei ddefnyddio i weithio gyda rhanddeiliaid ar lefel fwy lleol, er mwyn hwyluso cyfleoedd a'u hymgysylltu mewn ffordd sy'n uchafu ei gyfraniad i'r Amcanion Llesiant.

Wrth ddisgwyl Bil yr Amgylchedd, fe ymgymerodd CNC â 3 prawf seiliedig ar ardal yn y Rhondda, Tawe a Dyfi rhwng 2014-16. Mae'r dysgu allweddol o'r profion yn cael ei gofnodi. Ceir mwy o wybodaeth am y profion yn y dolenni isod:

Rhondda: <https://naturalresources.wales/about-us/how-we-work/natural-resource-management-in-the-rhondda/?lang=en>

Tawe: <https://naturalresources.wales/about-us/how-we-work/natural-resource-management-in-the-tawe/?lang=en>

Dyfi: <https://naturalresources.wales/about-us/how-we-work/natural-resource-management-in-the-dyfi/?lang=en>

### **Astudiaeth achos – Gwella pysgodfeydd yng nghored Parc Glas**

- Gan godi i 500 metr uwchben lefel y môr, mae Afon Afan yn llifo 26 cilomedr i Fae Abertawe ym Mhort Talbot. Arweiniodd yr hanes mwynloddio a phuro metelau yn y dalgylch at fwy neu lai dileu'r bysgodfa salmonidau ar ddechrau'r 19eg ganrif.
- Ar hyn o bryd nid yw pedwar o chwe chorff dŵr Afan a arolygwyd yn cyflawni amcan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pysgod.
- Nododd ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu i eogiaid yn 2003 gored Parc Glas fel y prif rwystr i lwybr y pysgod yn Afon Afan. Mae'r gored, sydd ar ben eithaf y llanw, yn bwysig iawn i bysgod sy'n symud o'r amgylchedd morol i'r amgylchedd dŵr croyw.
- Mae'r hwylusfa bysgod newydd a osodwyd yn 2011 yn cynnwys hwylusfa bysgod Larinier a chanddi ddwy res weithredol iawn gyda gwaelod baffl ar dri phlân â phwll gorffwys yn y canol. Mae'r hwylusfa bysgod, a ddyluniwyd i weithredu rhwng llifoedd Q90 a Q5, yn arloesol a dyma'r unig Larinier â "sianeli ar lefelau gwahanol" yn y DU.
- Disgwylir i fynediad gwell i salmonidau ymfudol i Afon Afan gynyddu'r boblogaeth bysgod, gan helpu i gyflawni targed y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o statws ecolegol da i holl gyrff dŵr dalgylch Afon Afan erbyn 2027.



## 5. Amcanion a mesurau

Mae'r adran hon yn amlinellu'r hyn rydym yn bwriadu'i gyflawni a'r mesurau y mae angen eu rhoi ar waith. Ein nod yw datblygu rhaglen integredig sengl o fesurau erbyn 2021 sy'n bodloni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn cynnwys:

- **Atal dirywiad mewn statws**

Ni chaniateir i statws cyrff dŵr ddirywio o'r statws cyfredol.

- **Cyflawni'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig**

Cyflawni'r safonau a nodir gan y gyfarwyddeb berthnasol y cawsant eu dynodi oddi tani. Ar gyfer safleoedd Natura 2000 sy'n ddibynnol ar ddŵr, y nod yw cyflawni amcanion cadwraeth. Mae sicrhau statws da erbyn 2021 yn garreg filltir tuag at yr amcan hwn.

- **Anelu at sicrhau statws cyffredinol da ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear**

Gweithredu mesurau i sicrhau statws cyffredinol da lle maent yn dechnegol ymarferol heb fod yn anghymesur o ddrud.

### 5.1 Mesurau

Rydym wedi adolygu'r rhesymau dros pam nad yw'r cyrff dŵr yn cyflawni'r amcanion ac rydym wedi nodi mesurau gofynnol. Rhennir y mesurau yn ddau grŵp:

Mae **mesurau cenedlaethol** yn berthnasol i Gymru gyfan, neu'r Deyrnas Unedig. Yn gyffredinol mae'r rhain yn gosod y dull gweithredu deddfwriaethol, polisi neu strategol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys gwaharddiad cenedlaethol ar ddefnyddio cemegyn penodol neu strategaeth genedlaethol ar gyfer blaenoriaethu ac ariannu'r gwaith o fwyngloddiau pyllau segur. Mae rhestr o'r mesurau cenedlaethol cynlluniedig ar gael yn niweddariadau RBMP ac WWW

Mae **mesurau lleol** yn benodol i'r ardal basn afon neu ran ohoni. Er enghraifft, cael gwared ar blanhigion goresgynnol ar hyd afon ddynodedig neu ymgyrch leol yn targedu camgysylltiadau ar draws ystâd ddiwydiannol. Bydd manteision amrywiol hefyd i lawer o'r camau gweithredu a restrir. Er enghraifft, mae cynlluniau draenio trefol cynaliadwy (SuDs) yn helpu i leihau llygredd trefol, llygredd carthion a newidiadau i lefelau dŵr. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r mathau o fesurau lleol sydd eu hangen ar gyfer y dalgylch rheoli, yn cynnwys y rhai a nodwyd ar gyfer ardal warchoddedig.

Mae'r categorïau lefel uchel yn disgrifio'r mathau o weithredu sydd eu hangen a'r dewisiadau sydd ar gael yn fras, yn cynnwys mesurau gwirfoddol a rheoleiddiol. Ar raddfa leol efallai na fydd y dewisiadau a ddisgrifiwyd yn addas. Mae rhai categorïau yn gorgyffwrdd. Mae'r tabl hefyd yn dangos nifer y cyrff dŵr sydd ym mhob mesur, dylid defnyddio nifer y cyrff dŵr yn y tabl fel canllaw i ddangos arwyddocâd y mater yn y dalgylch, a bydd y niferoedd hyn yn newid drwy'r rhaglen 6 blynedd. Mae data cyfredol ar Resymau dros Beidio â Chyflawni Da (RNAG) ar gael ar WWW a dylid cyfeirio ato cyn rhychwantu mesurau lleol.



**Tabl 3. Crynodeb o fesurau lleol gofynnol yn y dalgylch rheoli.**

Mesur	Disgrifiad	Nifer y cyrff Dŵr (seiliedig ar ddata 2014)
Adfer asideiddio	Rheoli allyriadau ac adfer ucheldir: blocio draeniau, adfer gorgyrs, blocio draeniau coedwigoedd a phlannu coed brodorol ar lannau afon o fewn planhigfeydd coedwigaeth, opsiynau calchu. Rhywfaint o orgyffwrdd â "mynd i'r afael â llygredd aer".	3
Mynd i'r afael â llygredd aer	Rheoli allyriadau i leihau nitrogen a gwaddod asidig. Rhywfaint o orgyffwrdd ag "adfer asideiddio".	14
Mynd i'r afael â llygredd yn y tarddle	Ymchwilio i lygredd o darddleoedd a'i reoleiddio. Mae hyn yn gorgyffwrdd â "lleihau llygredd o ollyngiadau carthion" a "gollyngiadau dŵr gwastraff eraill".	14
Rheoli prosesau a gwaddod arfordirol yn briodol	Mesurau i ddiogelu ac adfer cyfanrwydd systemau twyni.	3
Cwblhau'r cylch cyntaf o ymchwiliadau	Yr holl ymchwiliadau parhaus dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o raglen y cylch cyntaf.	27
Rheoli draeniau a lefelau dŵr	Ymchwilio i newidiadau i systemau a strwythurau draenio tir a'u gweithredu i adfer lefelau dŵr.	28
Carthu a rheoli silt	Yn cynnwys lleihau siltio yn y tarddiad drwy reoli tir, a gweithredu systemau carthu a gwaredu silt cynaliadwy.	5
Hwyluso symudiadau pysgod a gwella cynefinoedd	Cael gwared ar rwystrau i symudiadau pysgod neu eu haddasu.	6
Gwella llifau a lefelau dŵr	Lleihau effeithiau llifau rheoledig a gwaith tynnu dŵr, adfer systemau llif mwy naturiol, gweithredu opsiynau i wella lefelau dŵr, megis effeithlonrwydd dŵr a mesurau ailgylchu, a ffynonellau a chyflenwadau amgen.	15
Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol	Dileu a/neu reoli rhywogaethau estron goresgynnol yn unol â Chynlluniau Gweithredu cenedlaethol cyfredol ar rywogaethau goresgynnol. Mae'n cynnwys arfer da bioddiogelwch, megis "gwirio, glanhau, sychu".	32
Adfer dŵr mwyngloddiau a thir wedi'i halogi	Adfer pyllau glo, mwyngloddiau metel a thir wedi'i halogi – yn cynnwys trin dŵr mwyngloddiau goddefol a gweithredol, capio rwbel, symud gwastraff i safleoedd tirlenwi, a dargyfeirio sianeli.	6

Lliniaru effeithiau llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol	Lleihau effeithiau strwythurau a gweithrediadau amddiffynfeydd llifogydd – gwella cysylltiadau, cynefinoedd a morffoleg drwy weithredu opsiynau drwy raglenni cyfalaf a chynnal, megis peiriannu meddal, agor cwlfertau, gwella caeadau llanwol, newid trefniadau carthu a rheoli llystyfiant. Mae'n cynnwys y rhaglen creu cynefinoedd cenedlaethol i fynd i'r afael â chywasgu arfordirol.	15
Lliniaru effeithiau morgludiant, mordwyo a charthu	Asesu a gweithredu opsiynau ar gyfer addasu systemau carthu a lleihau effeithiau addasiadau ffisegol.	4

Ceir manylion ar gyfer mesurau lleol penodol ar WWW, mae rhai enghreifftiau o'r camau gweithredu sydd eisoes ar waith yn cynnwys:

- Cynlluniau i wella hwylusfa bysgod yng Nghored Parc Glas, Cored Marcroft a Nant Cynon ar waith gan bysgotwyr Afan, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Gwelliannau i gynefin yng ngwaelod Ogwr gan Gymdeithas Bysgota Ogwr, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal, adfer graean afon Garw Uchaf.
- Rydym yn adolygu trwyddedau gollwng a thrwyddedau tynnu dŵr i sicrhau eu bod yn amddiffyn yr amgylchedd.
- Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda ni i ganfod a datrys camgysylltiadau.
- Mae busnesau'n gweithio gyda ni ar ystadau diwydiannol i wella'u mesurau atal llygredd.
- Mae'r Awdurdod Glo yn gweithredu sawl ffatri trin dŵr mwyngloddiau yn y dalgylch hwn, e.e. Pelenna, Ynysarwed, ac mae'n datblygu cynllun arall ym mhwill glo Aberbaiden yng Nghynffig.
- Creu gwlyptir Afan – dyma brosiect newydd a chanddo'r bwriad o greu cynefin gwlyptir yn nalgylch Afan rhwng cydlifiad Corrwg â chydliad Pelenna.
- Mae'r fenter Nentydd Clir ar waith i wella'r amgylchedd dŵr yng nghymunedau trefol Abertawe a Maesteg. Mae 'Nentydd Clir – Maesteg' yn cynnwys dau gorff dŵr yn nalgylch Llynfi.

## 5.2 Adborth ar ddatrysiadau

Amlygwyd pryderon ynghylch y statws presennol a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ac yn y gweithdy yn Adran 3, a thrafodwyd hefyd y datrysiadau a'r blaenoriaethau. Mewn cysylltiad â rhai o'r materion a godwyd, nodwyd y canlynol fel blaenoriaethau:

- **Llifogydd – gwella cynefinoedd**  
**Roedd y datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys:** dylanwadu ar gynllunwyr a datblygwyr i gydnabod budd ecolegol sawl cyfraniad 'bach', megis adeiladu ffosydd draenio yn hytrach nag agor ffosydd draenio.
- **Hamdden – gwella mynediad gwledig a threfol**  
**Roedd y datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys:** addysg – i annog y cyhoedd i ddefnyddio llwybrau, yn enwedig hawliau tramwy mewndirol nad ydynt wedi'u hyrwyddo cymaint â llwybrau arfordirol. Manteision i gydraddoldeb cymdeithasol a balchder yn yr amgylchedd / cymuned leol. Cynllun *River Ranger* (afon Tawe).

- Llygredd gwasgaredig trefol**  
**Roedd y datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys:** rheoli draenio trefol yn well, trwy lai o bibellau a rhagor o wlyptiroedd a llynnoedd. Ffordd fwy strategol o ymdrin â chamgysylltiadau a llygredd gwasgaredig yn gyffredinol, gyda chodi ymwybyddiaeth yn elfen allweddol. Yr ymgyrch *Connect Right* a ffocws gwell ar dargedu datblygwyr i osgoi camgysylltiadau pellach. Bod yn fwy llym wrth gymeradwyo rheoli adeiladu. Achrediad Water-safe.
- Coedwigaeth**  
**Roedd y datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys:** cynllunio gwell i wella amrywiaeth, rheoli a chysylltu gwell o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a chyda phartneriaid.
- Rhywogaethau Estron Goresgynol, yn enwedig Jac y Neidiwr a Chlymog Japan**  
**Roedd y datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys:** dull dalgylch o'r brig i lawr, gan gynnwys y gymuned e.e. ar gyfer tynnu Jac y Neidiwr.
- Ymgysylltu â'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth**  
**Roedd y datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys:** ei wneud yn gymdeithasol. Ei wneud yn hwyl. Cynnwys negeseuon amgylcheddol allweddol.
- Llygru diwydiannol a materion hanesyddol**  
**Roedd y datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys:** is-ddeddfau newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru/awdurdodau lleol/byrddau draenio mewnol. Ymchwilio rhagor i ddulliau o drin dŵr mwyngloddiau ar raddfa fach.
- Dirywiad mewn cynefinoedd a rhywogaethau dyfrol**  
**Roedd y datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys:** adfer mawnogydd a blocio ffosydd i ddal y dŵr yn ôl, adfer cynefinoedd glannau afon i ymddwyn fel byffer o ddŵr ffo ar y tir a help i atal erydiad.

### Astudiaethau Achos:

- **Arolygon Ystadau Diwydiannol** – Arolygwyd ystadau diwydiannol ar draws Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe gan gontractwyr sydd wedi nodi llawer o faterion llygredd, yr ymchwiliodd swyddogion iddynt yn ddiweddarach. Mae'r arolygon hefyd yn darparu gwybodaeth hanfodol i swyddogion sy'n rhan o brosesau ymateb i ddigwyddiadau.
- **Nentydd Clir Llynfi** - Yn rhan o'r fenter Nentydd Clir yng nghwm Llynfi, darparom brosiect partneriaeth â chydlynnydd Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus â'r bwriad o ymgysylltu â phobl ifanc a'u hysbrydoli i gymryd rôl weithredol mewn gwella ansawdd dŵr Afon Llynfi. Darparom weithdai i drafod llygredd, camgysylltiadau, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a'r cylch bwyd (â help Hector y Dyfrgi!). Bydd menter Nentydd Clir (Llynfi) yn parhau i weithio gyda'r rhanddeiliaid yng nghwm Llynfi ac mae hefyd yn bwriadu darparu'r gweithdai Eco-s golion arloesol ar draws dalgyllch ehangach Ogwr yn y dyfodol.



**Model camgysylltiadau gan swyddogion yn nhîm rheoli amgylchedd**

### 5.3 Ardaloedd targed ar gyfer 2015-21

Rydym wedi gweithio ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu rhaglen fforddiadwy o fesurau lleol a chenedlaethol, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth gyfredol o adnoddau presennol. Rydym yn canolbwyntio ar:

- Atal dirywiad yn yr holl gyrff dŵr
- O fewn RBD Gorllewin Cymru - gwella cydymffurfiaeth â statws cyffredinol da mewn 21 corff dŵr sydd ar hyn o bryd yn gymedrol/wael, a hefyd gwella 4 corff dŵr gwael i gymedrol.
- Targedu mesurau yn lleol mewn dull integredig i gyflwyno gwelliannau amgylcheddol mewn gyrff dŵr WFD ac Ardaloedd gwarchoddedig, yn cynnwys ardaloedd wedi'u gwarchod ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dyfrol.
- Nodi lle bydd gwelliannau lefel elfennau yn cael eu gwella yn ystod yr ail gylchred, ond lle bydd angen mesurau pellach i gyflawni newid statws ecolegol yn gyffredinol.
- Datblygu ein dull i reoli adnoddau naturiol drwy weithio ar lefel dalgyllch lleol a chael y buddion ehangach a gyflawnir drwy WFD.

**Tabl 5 Cyrff dŵr yn nalgylch rheoli Tawe i Dregatwg y bydd CNC yn eu targedu i gyflawni statws gwell erbyn 2021**

Cyf. Corff dŵr	Enw	Targed statws	Manylion
GB110058026140	Pelenna – blaenddyfroedd i gydlifiad ag Afan	Cymedrol erbyn 2021	Am fwy o wybodaeth ar y cyrff dŵr a dargedwyd ewch i <b>WWW</b>

### Rhaglen archwiliadau

Mae'r holl gyrff dŵr nas gwyddir achos yr effaith niweidiol arnynt angen cael eu harchwilio. Mae hyn yn berthnasol yn achos cyrff dŵr sy'n methu a'r rheiny sydd wedi dirywio dros y gylchred gyntaf.

### Rhaglen Natura 2000 – camau gweithredu wedi'u cynllunio/ar y gweill

Rhaid i raglen mesuriadau RBMP gynnwys unrhyw fesur sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â safonau ac amcanion safleoedd Natura 2000 a restrir yn y gofrestr ardaloedd gwarchoddedig.

Mae'r rhestr isod yn grynodeb o safleoedd lle mae mesuriadau Cynlluniau Gwelliannau Blaenoriaethol wedi'u cynllunio neu sydd ar y gweill. Nid yw'n crynodi'r camau gweithredu sydd eu hangen. (Ceir mwy o wybodaeth trwy gysylltu â CNC: [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)).

Mae nifer y camau gweithredu arfaethedig yn isel yn rhannol oherwydd mae'n anodd asesu beth fydd yn cael ei ariannu tu hwnt i 2015/16. Bydd ein huchelgais ar gyfer yr ail gylchred yn datblygu wrth i gyfleoedd/adnoddau ddod ar gael. Rydym wedi nodi 18 o gamau gweithredu blaenoriaethol ychwanegol yn Nalgylch Rheoli Afonydd Arfordirol Cleddau a Sir Benfro a all gael eu gweithredu pan fydd cyfle'n codi.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu a chynllunio nifer o gamau gweithredu strategol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion N2K. Cynhwysir y rhain o fewn y Rhaglen Mesurau wedi'i diweddarau.

Dengys y tabl isod y safleoedd Natura 2000 gyda chamau gweithredu wedi'u cynllunio neu sydd wedi dechrau cael eu gweithredu, gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y camau gweithredu ar wefan **WWW**.

**Tabl 6. Nifer y safleoedd N2K gyda chamau gweithredu wedi'u cynllunio / ar y gweill**

Safle N2k	Wedi'u cynllunio	Ar y gweill
Kenfig / Cynffig		1

### Camau Gweithredu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Mae gwybodaeth bellach ar fesurau lleol ar gael yn yr adran crynodeb dalgylch yn y FRMP wedi'i ddiweddarau.

### Adnabod eich Afon – Cynllun Dalgylch Eog a Sewin

Mae CNC yn casglu ystod o ddata eogiaid penodol at ddibenion rheoli, a chyflwynir hyn yn y Crynodebau Dalgylch Eog a Sewin lleol. Defnyddir offer eogiaid penodol, mesuriadau a



chaffael data megis canlyniadau electrobysgota, dalfeydd wedi'u datgan ac amcangyfrifon wyau eogiaid blynyddol i lywio buddsoddiad parhaus mewn cynlluniau adfer cynefinoedd a llwybrau pysgod. Mae'r crynodebau'n cael eu diweddarau'n flynyddol ac yn sicrhau bod blaenoriaeth effeithiol mewn cyrff dŵr i wella pysgodfeydd eogiaid. Mae'r camau gweithredu'n cael eu cyflwyno ar y cyd â phartneriaid ac yn cyfrannu at wella a diogelu'r adnodd gwerthfawr hwn yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth trwy gysylltu â CNC: [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)

### Rhaglen Cwmni Dŵr

O fewn RBMP 2015; mae nifer o fesuriadau sy'n ofynnol o Gwmnïau Dŵr. Cynhwysir dyraniad cyllid ar gyfer y mesuriadau hyn yng nghynllun busnes cwmnïau a gyflwynwyd i Ofwat ar gyfer cyfnod 2015-20. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi Cynllun Amgylchedd Cenedlaethol diwygiedig sy'n darparu manylion mesuriadau cwmnïau dŵr. Mae'r Cynllun Amgylchedd Cenedlaethol yn manylu ar y gwelliannau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau ansawdd dŵr. Gweler amlinelliad o'r mesurau a geir o fewn y dalgylch rheoli yn y tabl isod, gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan **WWW**.

**Tabl 7. Ymchwiliad cwmnïau dŵr a chynlluniau gwella**

Cyf. Corff dŵr	Enw	Canlyniad
GB110058032320	Sychryd – blaenddyfroedd i gydlifiad â Mellte	Dim cynllun dirywio
GB110058026430	Y Ddawan - blaenddyfroedd i gydlifiad â Kenson	Cyflawni statws ecolegol da
GB110058021000	Kenson – cydlifiad â Waycock i gydlifiad â'r Ddawan	
GB110058026332	Llynfi - Lletty Brongu STW i gydlifiad ag Ogwr	
GB110059025710	Nant y Fendrod - blaenddyfroedd i gydlifiad â Tawe	Ymchwiliad i'w gynnal, lle mae asedau cwmnïau dŵr yn cyfrannu at fethu â chyrraedd GES
GB110058032320	Sychryd - blaenddyfroedd i gydlifiad â Mellte	
GB110059032180	Tawe – cydlifiad â Twrch i derfyn llanw	
GB110058026410	Llancarfan	
GB110062039050	Morgenau - blaenddyfroedd i gydlifiad â Teifi	
GB110058026140	Pelenna - blaenddyfroedd i gydlifiad ag Afan	
GB110058026320	Garw - blaenddyfroedd i gydlifiad ag Ogwr	
GB110058026390	Clydach - blaenddyfroedd i gydlifiad â Nedd	
GB110058032360	Dulais - blaenddyfroedd i	

Cyf. Corff dŵr	Enw	Canlyniad
	gydlifiad â Nedd	
GB110058026332	Llynfi - Lletty Brongu STW i gydlifiad ag Ogwr	
GB110058026400	Waycock -blaenddyfroedd i gydlifiad â Kenson	
GB110058032420	Dringarth - blaenddyfroedd i gydlifiad â Mellte	Ymchwiliadau i beryglon ansawdd dŵr yfed
GB641008260000	Bae Abertawe	Modelu arfordirol a rhwydweithiol i alluogi cynllunio sut i gwrdd â gofynion pysgod cregyn WFD.
GB641008260000	Bae Abertawe	Ymchwiliadau i'r effaith o asedau ar draethau ymdrochi dynodedig.

#### 5.4 Amcanion amgen

Rydym wedi nodi 28% o gyrff dŵr lle rydym wedi ymestyn y terfyn amser neu osod amcan llai llym (llai na da) oherwydd natur y broblem neu'r mesurau gofynnol. Ym mhob achos rydym wedi rhoi cyfiawnhad.

**Tabl 4. Amcanion amgen a chyfiawnhad**

Amcan amgen	Cyfiawnhad	Nifer y gyrff dŵr	Corff dŵr
Extended deadline	Cause of adverse impact unknown	16	Ffrwd Wyllt – blaenddyfroedd i derfyn llanw Afan – cydlifiad â Corrwg i gydlifiad â Pelenna Cynffig - blaenddyfroedd i derfyn llanw Baglan Brook – blaenddyfroedd i gydlifiad â Nedd Crymlyn Brook – LIU i gydlifiad â Chamlas Tennant Nant y Fendrod – blaenddyfroedd i gydlifiad â Tawe Tawe - cydlifiad â Twrch i derfyn llanw Cwm Du Cronfa ddŵr Penderyn Llyn Fawr Cronfa ddŵr Eglwys Nunydd AFAN

			OGWR TAWE Bae Abertawe Môr Hafren Gog. Mewnol
Amcan llai llym	Cyflwr cefndirol	4	Clydach Brook – LIU i gydliwiad â Nedd Clydach – blaenddyfroedd i gydliwiad â Nedd Mellte - Llia/Dringarth cydliwiad â Nedd Fechan Hepste – blaenddyfroedd i gydliwiad â Mellte
	Dim datrysiad technegol gwybyddys ar gael	1	Mesurau Glo Carbonifferaidd Abertawe

### 5.5 Cyfleoedd ar gyfer partneriaethau

Mae sawl cyfle i gael arian allanol, a allai gefnogi prosiectau sy'n cyfrannu tuag at ganlyniadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae gan bob cronfa ei blaenoriaethau, dyraniad cyllidebol a phroses ymgeisio ei hun. Mae'r mathau o arian i'w hystyried yn cynnwys:

- Arian Loteri – megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Loteri Cod Post a'r Gronfa Loteri Fawr y mae ganddynt amrywiaeth o raglenni o £5000 hyd at filiynau o bunnoedd.
- Elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau – mae llawer o'r rhain yn gweithredu ac yn aml mae ganddynt ffocws penodol – un ai yn ddaearyddol neu'n destunol a byddant yn cefnogi elusennau a phrosiectau lleol.
- Busnesau a chyfleoedd am nawdd – gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar y gost o brynu bagiau cario yng Nghymru!
- Cyrff cyhoeddus – gallai fod gan awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a CNC gyfleoedd blynyddol am arian neu gystadlaethau untro ar gyfer eu meysydd â blaenoriaeth.
- Cyllido torfol – casglu cefnogaeth o amrywiaeth eang o gyllidwyr a nifer ohonynt, yn aml yn cynnwys unigolion ac fel arfer defnyddio'r rhyngwyd i godi ymwybyddiaeth o brosiect penodol y mae arno angen arian.
- Masnachu – yn gynyddol, mae cyllidwyr am gefnogi sefydliadau gan ystyried cynaliadwyedd tymor hwy felly gall datblygu cyfleoedd masnachu fod yn rhywbeth i'w ystyried yn ogystal.

Bydd gan eich Cyngor Gwirfoddol Sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wybodaeth ddiweddar am gyfleoedd megis y rhain yn ogystal â'r holl gymorth arall sydd ar gael.

## 6. Archwilio Dyfroedd Cymru

Yn ystod cam gweithredu RBMP 2009, gofynnodd llawer o'n partneriaid a'n rhanddeiliaid am fynediad i ddata a gwybodaeth i'w cynorthwyo i helpu i ddarparu gwelliannau amgylcheddol lleol. Teimlai llawer o randdeiliaid ei bod yn anodd llywio'r cynllun cyntaf a chael mynediad i wybodaeth yn lleol. O ganlyniad, gyda chymorth a mewnbwn paneli cyswllt dalgylch y basn afon, datblygwyd offer ar y we a elwir **Archwilio Dyfroedd Cymru** (Water Watch Wales). Mae'n offer ar y we sy'n ofodol ac yn rhyngweithiol sy'n darparu gwybodaeth gefnogol a haenau o ddata.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r offer hwn ac rydym yn ei ystyried yn gyswllt hanfodol rhwng y RBMP mwy strategol a darpariaeth leol. Mae'n galluogi'r defnyddiwr i gael mynediad i wybodaeth am:

- ddata ddosbarthiad ar raddfa'r corff dŵr
- rhesymau dros beidio â chyflawni statws da
- amcanion
- mesurau/gweithredoedd, gan gynnwys gwybodaeth am ardaloedd gwarchoddedig
- prosiectau partneriaeth

Mae modd adalw data mewn nifer o fformatau (taenlenni ac adroddiadau crynhoi). Mae canllaw i ddefnyddwyr yn ogystal â chwestiynau cyffredin wedi'u cynnwys â'r offer ac mae modd cael mynediad iddynt trwy ddolen ar yr hafan.

**Dolen i dudalen gartref:** [waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk](http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk)



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am – 6pm)

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

(h) Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd  
Cyfoeth Naturiol Cymru